Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MA(P)KW2277/17

22 Mehefin 2017

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 14 Mehefin yn gofyn am yr wybodaeth y cytunais ei rhannu â chi yn y sesiwn graffu gyffredinol ddiweddar.

Yr Academi Genedlaethol

Fel yr eglurais yn y Pwyllgor, sefydliad hyd braich fydd yr Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol. Diben yr Academi fydd cynllunio ar gyfer ein hanghenion at y dyfodol o ran datblygu arweinyddiaeth yng Nghymru. Ni fydd yn ddarparwr dysgu, ond bydd ganddi drosolwg strategol o'r gwaith.

Byddem yn disgwyl i'r nifer sy'n dilyn y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) aros ar lefel debyg, sef tua 150. O ran y rhaglenni eraill, nid ydym wedi cytuno eto ar y nifer a fydd yn cymryd rhan yn y rhaglenni arfaethedig ym mis Medi 2017. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i weithio gyda'r consortia ar ddarpariaeth genedlaethol gyson a fydd yn cael ei chynnig yn rhanbarthol o'r dyddiad hwn ymlaen. Byddaf yn rhannu gwybodaeth bellach â'r Pwyllgor ynghylch faint o unigolion a fydd yn elwa ar yr Academi yn yr hydref.

Cyllideb Derfynol 2017-18

Gallaf gadarnhau y bu cynnydd o £5.436m yn y swm a ddyrannwyd i gyllid addysg rhwng cyllideb ddrafft 2017-18 a nodwyd ym mis Hydref 2016 a chyllideb derfynol 2017-18. Trosglwyddwyd £2.236m i mewn o ganlyniad i'r trosglwyddiad o £2.5m mewn cysylltiad â'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a'u datblygu'n asesiadau ar-lein, personol (ar ôl tynnu'r ad-daliad gwerth £0.264m ar gyfer y system Benthyciadau Myfyrwyr).

Dyrannwyd £3.2m o refeniw ychwanegol o'r cronfeydd canolog rhwng y gyllideb ddrafft a chyllideb derfynol 2017-18 hefyd. Rhannwyd y £3.2m fel a ganlyn:

- Trosglwyddiad o £1.7m o'r cronfeydd canolog i gefnogi trefniadau pontio ar gyfer Her Ysgolion Cymru. Bydd £0.2m ohono yn ehangu'r cymorth cynghorol mewn Ysgolion

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llwybrau Llwyddiant hyd ddiwedd blwyddyn academaidd 2016/17. Bydd yr £1.5m ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth penodol i ysgolion yn 2017-18, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o raglen Her Ysgolion Cymru.

- Trosglwyddo £1m i mewn o'r cronfeydd canolog i ariannu rhaglenni cymhelliant hyfforddiant athrawon.

- £0.5m yn 2017-18, fel rhan o gynnig tair blynedd, i gefnogi gwaith y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol.

Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18
Fel y cadarnhawyd yn fy mhapur tystiolaeth, ar hyn o bryd nid oes unrhyw newid pellach i ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer Addysg yn y Gyllideb Atodol Gyntaf.

Mae trosglwyddo cyfrifoldebau'r portffolio Gyrfaoedd i'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth yn cynnig nifer o fanteision arwyddocaol o ran polisi a gweithredu. Yn gyntaf, mae'n gosod cyfrifoldeb polisi dros y gwasanaeth gyrfaoedd yn yr un maes â'r gwasanaethau a'r swyddogaethau ehangach sy'n cefnogi'r economi a chyflogwyr. Mae cyflogwyr eisiau unigolion parod, â chymhelliant, sydd wedi cymhwyso'n briodol yn y farchnad lafur. Mae CCDG eisoes yn chwarae rôl allweddol wrth ddarparu rhaglenni a gwasanaethau sy'n dod o dan gyfrifoldebau'r Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth. Er enghraifft, mae Gyrfa Cymru eisoes yn cynnal amryw gynlluniau cyflogadwyedd i oedolion ar ran Llywodraeth Cymru (fel ReAct, y Porth Sgiliau Unigol a Llwybrau Cyflogaeth). Mae'r cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa'r unigolion fel eu bod yn gallu ymateb yn well i heriau yn y dyfodol, a chynyddu ymwybyddiaeth o'r farchnad lafur a chyfleoedd yn y dyfodol.

Bydd trosglwyddo cyfrifoldebau'r portffolio yn helpu i gryfhau cysylltiadau â chyflogwyr drwy'r system addysg. Mae gan Gyrfa Cymru ran ganolog i'w chwarae wrth gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Polisi Prentisiaethau (a adlewyrchwyd yn amcanion allweddol y sefydliad). Mae CCDG yn cynnig y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau a thros y flwyddyn ddiwethaf maent wedi cysylltu â mwy na 50,000 o bobl ifanc mewn digwyddiadau Ymwybyddiaeth o Gyfleoedd Iedled Cymru.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education